

Cwestiynau Astudiaeth Achos
Grŵp Cleientiaid Group Y Rheini sy'n Ymadael â Gofal

Manylion Personol	Enw: Anne-Marie Oes modd defnyddio'r enw wrth gyhoeddi'r astudio'r achos?: OES (wedi'i newid) Oed: 19 Awdurdod Lleol: Caerffili Sefyllfa ac anghenion Cefnogaeth Bresennol (dim mwy na 30 gair): Mae Anne-Marie wedi bod yn byw mewn prosiect i bobl ifanc gyda staff 24 awr, ac wedi symud yn ddiweddar i Fflat (dros dro) gyda Chymorth yn ôl yr Angen. Sefydliad: Llamau Gwybodaeth am y prosiect: Tai i bobl ifanc gyda chefnogaeth wedi'u staffio 24/7 a fflatiau heb staff 24/7 (gyda Chymorth yn ôl yr Angen).
Hanes Personol	Gwybodaeth gefndir cyffredinol ynglŷn â ffordd o fyw, anghenion a'r sefyllfa cyn derbyn cymorth (dim mwy nag 80 gair) Roedd Anne-Marie mewn gofal o tua 6 mis oed ymlaen, gan fod ei Thad i mewn ac allan o'r carchar, a'r Fam yn defnyddio cyffuriau ac yn methu ymdopi ag edrych ar ei hôl. Datgelodd Anne-Marie, tra roedd mewn gofal maeth, ei bod yn cael ei cham-drin yn gorfforol ac yn rhywiol, ac wedi hyn fe symudodd trwy nifer o leoliadau gofal maeth hyd nes iddi adael gofal. Methodd ei lleoliad llety â chymorth cyntaf, ac fe frwydrodd Ann-Marie gyda defnydd sylweddau (alcohol a chyffuriau), hunan-niwed a phroblemau iechyd meddwl, yn cael ei hasesu gan Wasanaethau Iechyd Meddwl sawl gwaith tra mewn argyfwng. Aseswyd Anne-Marie fel un â risg uchel o CSE, ac fe'i symudwyd o hostel fawr i brosiect llai, yn benodol i bobl ifanc rhwng 16-21.
Cymorth a Dderbyniwyd	Trosolwg o'r cymorth yn gysylltiedig â chartrefu a dderbyniwyd. <i>Paragraff neu Bwyntiau Bwled</i> os gwelwch yn dda (dim mwy na 100 gair) Mae Anne-Marie wedi cael cymorth i ddeall y risgiau ynghylch, e.e. defnydd sylweddau, cydberthnasau iach a hunan-niwed, ac wedi cael y gefnogaeth i ymdopi â'r materion hyn yn gadarnhaol ac yn ddiogel. Mae hi wedi bod yn gwirfoddoli ac yn gweithio mewn Canolfan Gymunedol leol, gan obeithio cwblhau hyfforddiant i fod yn Weithiwr Ieuenctid yn y dyfodol.

	Mae Ann-Marie wedi cael cymorth ac anogaeth i gredu ynddi hi ei hun, a pharchu'i hun, ac i edrych ar ôl ei hun yn gyntaf, yn hytrach na 'ffrindiau' honedig. Cafodd hefyd gymorth gyda phethau mwy ymarferol megis tacluso ei hystafell, siopa, coginio a rheoli arian. Mae Asiantaethau eraill hefyd wedi bod ynghlwm â chefnogi Ann-Marie, ac mae'r Asiantaethau hyn yn aml wedi dod i'r prosiect i ymweld â hi, gan fod hyn yn hyrwyddo ymgysylltu positif, h.y. yn lleihau'r rhwystrau megis costau teithio a theimlo'n anghyfforddus mewn amgylchiadau anghyfarwydd.
Deilliannau a Gyflawnwyd yn ystod cyfnod cefnogaeth	Rhowch drosolwg o'r deilliannau a gyflawnwyd gan y defnyddiwr gwasanaeth o dan y categorïau perthnasol tra'n derbyn cefnogaeth (80 gair): • Teimlo'n Ddiogel / Cyfrannu tuag at ddiogelwch a llesiant ei hun ac eraill; Mae Anne-Marie yn teimlo'n ddiogel o fewn y prosiect ac yn teimlo ei bod hi'n medru siarad â'r staff (24 awr y dydd os oes angen) i ddelio ag unrhyw bryderon; mae hi hefyd wedi adeiladu rhwydwaith cyfoedion positif gyda phobl ifanc eraill yn y prosiect. • Rheoli Llety / Rheoli Cydberthnasau / Teimlo'n rhan o'r Gymuned; Mae Anne-Marie yn abl i gynnal a chadw'i fflat ac mae hi'n falch o'i chartref. Mae hi bellach yn teimlo'n fwy hyderus i edrych ar ôl ei hun, yn hytrach na bod eraill yn cymryd mantais arni, ac mae hi wedi gwirfoddoli yn y Ganolfan Gymunedol leol. • Rheoli Arian / Ymwneud ag Addysg neu Ddysgu / Ymwneud â Chyflogaeth neu Wirfoddoli; Mae Anne-Marie yn rheoli ei harian yn llawer gwell, yn talu'i biliau ac yn defnyddio llai o alcohol a sylweddau eraill; mae hi hefyd am gwblhau cymhwyster Gweithiwr Ieuenctid, ac wedi bod yn cwblhau lleoliad hyfforddiant yn y Ganolfan Gymunedol leol. • Yn iach yn Gorfforol / Yn iach yn Feddyliol / Yn byw Bywyd Iach, Gweithgar; Mae Anne-Marie yn teimlo'n llawer hapusach yn feddyliol ac mae ganddi fecanweithiau i ymdopi y mae'n teimlo'n hyderus i'w defnyddio cyn troi at alcohol / cyffuriau, neu hunan-niweidio.
Cynlluniau'r Dyfodol	Un paragraff os gwelwch yn dda (50 gair) Fe fase Anne-Marie yn hoffi, yn y pendraw, i gael ei chartref ei hun, cwblhau cymhwyster Gweithiwr Ieuenctid, a chael hyd i swydd.

Hyd amser y gefnogaeth: 2 flynedd

Cost Cefnogi Pobl:

Ataliadau: Nodwch, trwy roi tic yn y blychau isod, y canlyniadau annymunol a chostus a gafodd eu hatal

Troseddu	Cyflogaeth ac Economi
☐ Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ☐ Trais yn y Cartref ☐ Troseddu ☐ Troseddau leuenctid ☐ Y ddalfa ☐ Arall, rhestrwch 	☐ Symud i ffwrdd o fudd-daliadau – rhestrwch y budd-daliadau a dderbyniwyd yn flaenorol:

Cartrefu	Iechyd	Gwasanaethau Cymdeithasol
☐ Dadfeddiannu cymhleth ☐ Adfeddiannu ☒ Cais yn ddigartref ☒ Llety dros dro ☐ Cyngor a chymorth i'r digartref ☐ Cysgu ar y stryd ☐ Arall, rhestrwch 	☐ Camddefnydd Alcohol ☐ Camddefnydd Cyffuriau ☐ Presenoldeb yn yr Uned Frys ☐ Cleifion mewnol mewn ysbytai ☐ Gofal dydd mewn ysbyty ☐ Gwasanaethau ambiwlans ☐ Cleifion ysbyty allanol ☒ Iechyd meddwl oedolion – iselder / gorbryder ☐ Iechyd meddwl Plant / Glasoed ☐ Anhwylderau iechyd meddwl eraill yn cynnwys dementia ☐ Gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol ☐ Cleifion iechyd meddwl mewnol ☐ Cleifion iechyd meddwl allanol ☐ Cartref gofal ALI gyda phroblemau iechyd meddwl ☐ Gofal dydd Gwasanaethau Cymdeithasol ALI gyda phroblemau meddwl ☐ Arall, rhestrwch 	☐ Plentyn wedi'i roi mewn gofal ☐ Asesiad amddiffyn plant ☐ Gofal preswyl – pobl hŷn ☐ Gofal nyrsio – pobl hŷn ☐ Oedolion ag anabledd dysgu mewn gofal preswyl ☐ Oedolion ag anabledd corfforol mewn gofal preswyl ☐ Arall, rhestrwch

--	--	--